# Canllaw i Gyfansoddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

## Cyflwyniad

### Y cyfansoddiad

Mae'r Cyngor wedi'i ffurfio o wahanol unigolion a chyrff sy'n cydweithio er mwyn cyflawni swyddogaethau'r Cyngor. Mae cyfansoddiad y Cyngor yn disgrifio'r bobl a'r cyrff gwahanol sy'n ffurfio'r Cyngor, eu swyddogaethau, yn ogystal â'r rheolau trefniadaeth sy'n rheoli sut mae'r cyrff hynny yn cydweithio er mwyn darparu gwasanaethau.

Ei nod yw: -

- galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau mewn modd effeithlon ac effeithiol;
- eich cefnogi chi i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi;
- helpu Cynghorwyr i gynrychioli eu hetholwyr yn fwy effeithiol; ac
- eich galluogi i fynnu bod y Cyngor yn atebol.

Un o brif amcanion y cyfansoddiad yw nodi, mewn ffordd eglur, beth allwch chi ei ddisgwyl gan y Cyngor, a'r hyn y gallwch ei wneud os nad yw eich disgwyliadau yn cael eu bodloni.

### Y canllaw hwn

Bwriad y canllaw hwn yw eich helpu i ddeall sut mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau a'n gweithio i ddarparu gwasanaethau yn eich ardal, yn ogystal ag egluro sut y gallwch gymryd rhan. Mae'n rhoi trosolwg o gyfansoddiad y Cyngor ac yn egluro adrannau allweddol o'r cyfansoddiad mewn iaith glir a syml.

Gall hefyd fod o ddefnydd i sefydliadau sydd yn cydweithio â'r Cyngor er mwyn darparu gwasanaethau o fewn ardal y Cyngor.

Mae rhan gyntaf y canllaw hwn yn egluro pam fod y cyfansoddiad yn bwysig yn ogystal â sut y caiff ei adolygu a'i ddiweddaru.

Mae'n anelu at ateb cwestiynau fel: -

- *Pam fod gan y Cyngor gyfansoddiad?*
- *Sut alla i gael copi o'r cyfansoddiad?*
- *Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cyfansoddiad yn gyfredol?*

Mae ail ran y canllaw hwn yn egluro adeiledd y Cyngor. Mae'n disgrifio cyrff democrataidd y Cyngor yn ogystal â sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a phwy sydd yn eu gwneud.

Mae'n egluro swyddogaethau'r Cyngor, ei Gabinet a'i bwyllgorau, a pha gyrff o'r Cyngor sy'n gyfrifol am bolisïau a phenderfyniadau penodol.

Mae'n anelu at ateb cwestiynau fel: -

- *Beth mae fy Nghynghorydd lleol yn ei wneud?*
- *Beth mae'r Cyngor yn ei wneud?*
- *Beth sy'n digwydd yng nghyfarfodydd y Cyngor?*
- *Sut mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau?*
- *Sut alla i weld beth oedd penderfyniad y Cyngor ar fater sy'n effeithio arna i?*
- *Beth mae'r Cabinet yn ei wneud?*
- *Sut mae'r Cabinet yn gwneud penderfyniadau?*
- *Beth yw'r broses o graffu ar benderfyniadau?*
- *Pwy sy'n gyfrifol am gynnal safonau ac am fynnu bod Cynghorwyr yn atebol am eu hymddygiad?*
- *Beth mae pwyllgorau'r Cyngor yn ei wneud?*
- *Beth mae'r pwyllgor Datblygiad a Rheoli yn ei wneud?*
- *Pwy sy'n gyfrifol am lywodraethu, archwilio a rheoli risg?*
- *Pwy sy'n gyfrifol am gynnal democratiaeth leol?*
- *Beth mae'r pwyllgor trwyddedu yn ei wneud?*

Mae trydedd ran y canllaw hwn yn egluro rolau a chyfrifoldebau'r aelodau etholedig a swyddogion cyflogedig y Cyngor. Mae'n disgrifio eu swyddi a sut maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i gyflawni swyddogaethau a blaenoriaethau'r Cyngor. Mae hefyd yn egluro'r codau ymddygiad sy'n rheoli ymddygiad y cynghorwyr a'r swyddogion a pha safonau ymddygiad y gallwch eu disgwyl ganddyn nhw.

Mae'n anelu at ateb cwestiynau fel: -

- *Beth mae'r Maer yn ei wneud?*
- *Beth mae'r Arweinydd yn ei wneud?*
- *Beth sy'n digwydd os na all yr Arweinydd gyflawni eu dyletswyddau?*
- *Mae fy Nghynghorydd yn aelod o'r Cabinet, beth mae hyn yn ei olygu?*
- *Sut caiff aelodau'r Cabinet eu cefnogi?*
- *Beth mae'r Prif Weithredwr yn ei wneud?*
- *Beth yw cyfrifoldebau'r Swyddog Monitro?*
- *Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau democrataidd y Cyngor?*
- *Sut y dylai cynghorwyr ymddwyn?*
- *Sut y dylai Swyddogion ymddwyn?*
- *A oes unrhyw ofynion arbennig pan fo Cynghorwyr neu Swyddogion yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio?*
- *Sut mae gwneud cwyn am ymddygiad Cynghorydd?*
- *Sut mae adrodd pryderon am ymddygiad un o swyddogion cyflogedig y Cyngor?*

Mae pedwaredd ran y canllaw hwn yn rhoi crynodeb o'r polisïau a'r gweithdrefnau allweddol sy'n rheoli sut mae'r Cyngor yn cyflawni rhai swyddogaethau.

Mae'n anelu at ateb cwestiynau fel: -

- *Ble alla i ddod o hyd i gynlluniau a strategaethau allweddol y Cyngor?*
- *Sut mae fframwaith polisi'r Cyngor yn cael ei gytuno?*
- *Sut mae'r Cyngor yn pennu ei gyllideb?*
- *A all penderfyniadau gael eu gwneud sydd ddim yn cydymffurfio â'r gyllideb neu â'r fframwaith polisi?*
- *A oes modd symud arian rhwng penaethiaid cyllideb ar ôl i'r gyllideb gael ei mabwysiadu?*

- *Pa bolisïau a gweithdrefnau eraill sy'n rheoli sut mae'r Cyngor yn rheoli ei gyllideb?*
- *A oes unrhyw gyfyngiadau ar sut mae'r Cyngor yn prynu nwyddau a gwasanaethau?*
- *Sut mae'r Cyngor yn ymrwymo i gontractau a chytundebau?*

Mae rhan olaf y canllaw hwn yn egluro sut y gallwch ymgysylltu â'ch Cyngor ac â democratiaeth leol a sut y gallwch chi gymryd rhan. Mae'n egluro sut mae eich cynghorwyr yn cael eu hethol, sut mae cysylltu â'ch cynghorydd, sut mae gofyn cwestiynau a siarad mewn cyfarfodydd, a sut mae defnyddio deisebau i ddod â materion sy'n bwysig i chi at sylw'r Cyngor.

Mae'n anelu at ateb cwestiynau fel: -

- *Beth mae'r Cyngor yn ei wneud i ymgysylltu â phobl leol?*
- *A gaf i anfon deiseb at y Cyngor?*
- *Sut mae gweld pryd mae'r Cyngor a'i bwyllgorau a'i gyrff yn cyfarfod?*
- *Sut mae gweld beth fydd yn cael ei drafod mewn cyfarfod penodol?*
- *Sut mae gweld pryd y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar fater rwy'n poeni amdano?*
- *A gaf i ofyn i bwyllgor neu gorff o'r Cyngor ymchwilio i fater penodol?*
- *A gaf i fynd i gyfarfodydd y Cyngor Llawn?*
- *A gaf i fynd i gyfarfodydd eraill?*
- *A gaf i siarad mewn cyfarfod?*
- *A gaf i ofyn cwestiwn mewn cyfarfod?*
- *Sut mae gweld beth oedd penderfyniad y Cyngor?*
- *A gaf i weld cyfrifon y Cyngor er mwyn deall sut mae fy nhreth cyngor yn cael ei wario?*

Trwy gydol y canllaw hwn cewch eich cyfeirio tuag at adrannau mwyaf perthnasol y cyfansoddiad ac at adnoddau ychwanegol sydd ar gael ar wefan y Cyngor er mwyn i chi gael darllen mwy ar bwnc penodol os dymunwch.

Os oes unrhyw beth yn y canllaw hwn sy'n aneglur, neu os oes unrhyw beth ar goll, dywedwch wrthym fel bo modd i ni ei wella.

## Rhan 1 Y cyfansoddiad

Y cyfansoddiad sydd yn rheoli'r ffordd y mae'r Cyngor, y Cynghorwyr a'r swyddogion sy'n gweithio yn y Cyngor yn cydweithio er mwyn cyflawni swyddogaethau'r Cyngor. Mae'n sicrhau bod pawb yn y Cyngor yn gweithredu'n gyfreithlon, yn deg ac yn briodol a bod swyddogaethau'r Cyngor yn cael eu cyflawni yn gywir ac yn effeithiol.

Mae adran 2.1 y cyfansoddiad yn egluro diben y cyfansoddiad.

Gallwch gael copi o'r cyfansoddiad o swyddfeydd y Cyngor a gallwch ei ddarllen ar wefan y Cyngor hefyd. Rhaid i bob Cynghorydd dderbyn copi o'r cyfansoddiad pan fyddant yn cael eu hethol i'r Cyngor.

Gallwch gael mynediad at gyfansoddiad y Cyngor ar wefan y Cyngor.

Mae adran 2.8 o'r cyfansoddiad yn egluro ble, pryd a sut mae angen cyhoeddi'r cyfansoddiad.

Y Swyddog Monitro sydd yn gyfrifol am gynnal ac adolygu'r cyfansoddiad. Y Swyddog Monitro sydd hefyd yn gyfrifol am benderfynu sut y dylid dehongli a gweithredu'r cyfansoddiad. Gallwch ddarllen mwy am rôl y Swyddog Monitro yn Rhan 4 o'r canllaw hwn.

Y Cyngor Llawn sy'n gyfrifol am gytuno ar y cyfansoddiad. Unwaith y cytunir ar gyfansoddiad, dim y Cyngor Llawn all ei newid. Fel arfer, bydd newidiadau i'r cyfansoddiad yn cael eu hargymell i'r Cyngor Llawn gan y Swyddog Monitro.

Mewn rhai amgylchiadau, gall y Swyddog Monitro wneud newidiadau i'r cyfansoddiad, er enghraifft, pan fo newid yn y gyfraith yn effeithio ar y cyfansoddiad, neu pan fo angen newid bychan i egluro darpariaeth aneglur o fewn y cyfansoddiad.

Mae adrannau 2.4 i 2.6 o'r cyfansoddiad yn egluro sut y cytunir ar y cyfansoddiad a sut y gellir ei newid.

Mae'r cyfansoddiad hefyd yn llywodraethu sut y dylai cyfarfodydd y Cyngor a'i bwyllgorau gael eu cynnal. Y person sy'n cadeirio cyfarfod sydd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r cyfansoddiad yn ystod y cyfarfod.

Mae geiriau ac ymadroddion allweddol wedi'u diffinio yn adran 2.2 o'r cyfansoddiad.

## Rhan 2 Adeileddau democrataidd y Cyngor

Ffurfir y Cyngor gan Gynghorwyr sy'n cael eu hethol bob pum mlynedd er mwyn cynrychioli pobl sy'n byw mewn gwahanol rannau o ardal y Cyngor (cyfeirir atynt yn y cyfansoddiad fel 'wardiau etholiadol').

Mae Cynghorwyr yn gyfrifol am bawb sy'n byw o fewn ardal y Cyngor, ond mae ganddyn nhw ddyletswydd arbennig i’r rhai sy'n byw yn eu ward.

Mae adran 1.2 o’r cyfansoddiad yn rhoi trosolwg o sut mae Cynghorwyr unigol yn cydweithio fel Cyngor.

Mae’r Cynghorwyr i gyd yn cyfarfod yn rheolaidd fel Cyngor Llawn. Y Cyngor Llawn sy’n gyfrifol am bennu cyllidebau, blaenoriaethau polisi a fframwaith polisi cyffredinol y Cyngor.

Ar ddechrau pob blwyddyn, bydd y Cyngor Llawn yn ethol un Cynghorydd i fod yn Faer. Y Maer sydd yn gyfrifol am gadeirio cyfarfodydd y Cyngor Llawn ac am sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gywir ac yn unol â'r rheolau.

Gallwch ddarllen mwy am y rolau hyn yn Rhan 3 o'r canllaw hwn.

Mae'r Cyngor yn penodi neu'n ethol Arweinydd (gellir ethol arweinydd y grŵp gwleidyddol mwyaf neu arweinydd clymblaid o grwpiau gwleidyddol). Gall cynghorwyr unigol gael eu penodi i’r Cabinet gan yr Arweinydd hefyd. Fel arfer, bydd Arweinydd yn penodi cynghorwyr i’r Cabinet o'u grŵp gwleidyddol eu hunain, er y gellir penodi cynghorwyr o unrhyw grŵp gwleidyddol. Mae aelodau'r Cabinet yn gyfrifol am feysydd polisi penodol, a elwir yn bortffolios. Pan fydd aelod o’r Cabinet yn derbyn cyfrifoldeb am faes gwaith neu swyddogaeth benodol, caiff ei ddisgrifio yn y cyfansoddiad fel maes neu swyddogaeth sydd wedi’i ddirprwyo i'r person hwnnw.

Mae'r Cabinet yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn gwneud penderfyniadau ar y cyd ar agweddau o waith y Cyngor y mae'r Cabinet yn gyfrifol amdanyn nhw.

Mae rhai o swyddogaethau'r Cyngor yn cael eu cyflawni gan bwyllgorau. Grwpiau bychain o Gynghorwyr yw pwyllgorau, ac maent yn cwrdd er mwyn cyflawni rhai o swyddogaethau rheoleiddio a chraffu y Cyngor. Heblaw am ambell i eithriad, mae aelodaeth pwyllgorau yn adlewyrchu dosbarthiad grwpiau gwleidyddol y Cyngor Llawn.

Hyd at yn ddiweddar, roedd yn rhaid i holl gyfarfodydd y cyngor (boed yn gyfarfod Cyngor Llawn, y Cabinet, pwyllgor neu is-bwyllgor) yn gofyn i'r cynghorwyr i fod yn bresennol yn y cyfarfod, a dim ond y cynghorwyr hynny a oedd yn bresennol fyddai’n cael cymryd rhan mewn trafodaethau ac yn cael pleidleisio. Bellach, gall y cynghorau gwrdd drwy ddefnyddio meddalwedd fideo-gynadledda. Gall y cyfarfodydd naill ai fod yn un "o bell" (sef pan fo pob cynghorydd mewn lle gwahanol) neu'n un "hybrid" (sef

pan fo rhai pobl yn bresennol, ac eraill mewn gwahanol leoedd). Hyd yn oed os yw pawb sy'n rhan o gyfarfod yn dewis bod yn bresennol yn gorfforol, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod opsiwn i ymuno â'r cyfarfod o bell.

Gall y Cyngor Llawn ddefnyddio hynny o staff cyflogedig y Cyngor (a elwir yn swyddogion) ag y maent yn ei ystyried yn briodol. Gall y Cabinet, y Cyngor Llawn a'r pwyllgorau ddirprwyo swyddogaethau i swyddogion. Mae rhagor o wybodaeth am ddirprwyaethau i'w chael yng nghynllun dirprwyaethau'r swyddogion.

Gallwch ddarllen mwy am yr adeileddau hyn yn yr adrannau canlynol o'r Rhan hwn o'r canllaw.

**Cynghorwyr**

Mae'r bobl sy'n byw o fewn ward benodol yn ethol Cynghorydd er mwyn eu cynrychioli ar y Cyngor. Er hyn, mae Cynghorwyr yn atebol i'r gymuned ehangach hefyd, ac mae'n rhaid iddyn nhw weithredu er lles pawb sy'n byw o fewn ardal y Cyngor.

Os ydych chi eisiau dod â mater at sylw'r Cyngor ond ddim yn siŵr â phwy y dylech gysylltu, gallwch gysylltu â'ch Cynghorydd i ofyn am gymorth.

Gallwch weld pwy yw eich Cynghorydd lleol a chael eu manylion cyswllt trwy fynd i wefan y Cyngor.

Mae pob Cynghorydd yn aelod o'r Cyngor Llawn, ond maen nhw hefyd yn gallu bod yn aelod o un neu fwy o aelod-gyrff y Cyngor (fel y Cabinet neu bwyllgor). Pan fo Cynghorydd yn gweithredu fel aelod o gorff penodol o'r Cyngor, mae'r cyfansoddiad yn cyfeirio atynt fel 'Aelod'.

Caiff hyn ei egluro mewn mwy o fanylder yn y rhestr o ddiffiniadau yn adran 2.2.2 y cyfansoddiad.

Mae hawliau penodol wedi'u nodi yn y cyfansoddiad ar gyfer Cynghorwyr sy'n eu galluogi i godi materion a chyflwyno sylwadau ar eich rhan.

Er enghraifft, gall Cynghorwyr: -

- weld unrhyw wybodaeth y maent ei angen i ganiatáu iddynt gyflawni eu rôl fel aelod o'r Cyngor;
- mynd i unrhyw gyfarfod o'r Cyngor, ei bwyllgorau neu'r Cabinet;
- siarad yng nghyfarfodydd unrhyw gorff Cyngor y maent yn aelod ohono;
- gyda chaniatâd y cadeirydd, maen nhw'n gallu siarad mewn unrhyw gyfarfod o unrhyw gorff y Cyngor (hyd yn oed os nad ydyn nhw'n aelod o'r corff hwnnw);
- siarad â'r Arweinydd, aelodau'r Cabinet neu swyddogion y Cyngor am unrhyw agwedd ar fusnes y Cyngor; a
- chyflwyno cwynion.

Nodir hawliau cynghorwyr i gael mynediad at wybodaeth yn adran 3 o'r cyfansoddiad.

Nodir hawliau cynghorwyr i gymryd rhan yn nhrafodion y Cyngor yn adran 3.3 o'r cyfansoddiad.

Gall cynghorwyr hefyd gyflwyno cwestiynau yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn ac ym mhwyllgorau ac is-bwyllgorau'r Cyngor, yn ogystal â chyflwyno cynigion i'r Cyngor Llawn a galw ceisiadau i mewn.

Mae'r rheolau ynghylch sut caiff yr hawliau hyn eu harfer wedi'u nodi yn adrannau 4.19 i 4.21 a 7.29 o'r cyfansoddiad.

Gallwch ddysgu mwy am rôl Cynghorwyr etholedig a pha rinweddau y mae Cynghorydd da eu hangen trwy ddarllen y disgrifiad rôl (yn y cyfansoddiad) a manyleb y person (yn y cyfansoddiad).

**Y Cyngor Llawn**

Adran 4 o'r cyfansoddiad sy'n llywodraethu'r Cyngor Llawn.

**<u>Beth mae'r Cyngor Llawn yn ei wneud?</u>**

Mae'r gyfraith yn nodi bod angen i rai penderfyniadau pwysig penodol gael eu gwneud trwy gynnull yr holl Gynghorwyr at ei gilydd fel Cyngor Llawn. Yn y cyfansoddiad, cyfeirir at y rhain fel swyddogaethau'r Cyngor Llawn. Efallai y bydd y Cyngor yn penderfynu y dylai'r Cyngor Llawn gyflawni swyddogaethau anweithredol eraill hefyd. Yn y cyfansoddiad, cyfeirir at y rhain fel swyddogaethau dewis lleol oherwydd bod gan y Cyngor ddewis o ran pa berson neu gorff ddylai eu cyflawni.

Mae adran 14 o'r cyfansoddiad yn egluro'r gwahanol fathau o swyddogaethau a gyflawnir gan y Cyngor a pha ran o'r Cyngor sy'n gyfrifol am eu cyflawni.

Yn ogystal â phethau eraill, mae'r Cyngor Llawn yn gyfrifol am: -

- gytuno ar y cyfansoddiad ac ar unrhyw newidiadau i'r cyfansoddiad;
- pennu cyllideb y Cyngor;
- datblygu cynllun integredig sengl y Cyngor (sy'n egluro sut y bydd y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol mewn meysydd fel iechyd a gofal cymdeithasol, plant a phobl ifanc a diogelwch cymunedol);
- cytuno ar gynlluniau a strategaethau allweddol (cyfeirir atynt yn y cyfansoddiad fel y 'fframwaith polisi');
- adolygu ac adrodd ar berfformiad y Cyngor;
- ethol yr Arweinydd a'r Maer; a
- phenodi'r Prif Weithredwr a Phrif Swyddogion eraill.

Rhestrir holl swyddogaethau'r Cyngor Llawn yn adran 4.6 y cyfansoddiad.

Y Maer sydd yn cadeirio cyfarfodydd y Cyngor Llawn. Y Maer sy'n gyfrifol am sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â'r cyfansoddiad a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gywir, yn deg ac yn gyfreithlon.

Gallwch ddarllen mwy am y rôl y Maer yn Rhan 3 o'r canllaw hwn.

**Beth sy'n digwydd yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn?**

Bydd y Cyngor Llawn yn cwrdd yn gynnar ym mhob blwyddyn ariannol er mwyn ethol Cynghorwyr i swyddi penodol ar y Cyngor, i benodi Cynghorwyr i gyrff allanol (gweler adran 4.10.2 y cyfansoddiad) ac er mwyn sefydlu pwyllgorau a gweithgorau i gynnal busnes y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Gelwir y cyfarfod hwn yn gyfarfod blynyddol.

Caiff amseriad y cyfarfod blynyddol a'r materion sydd i'w penderfynu yn y cyfarfod hwnnw eu disgrifio yn rheolau trefniadaeth y cyngor yn adran 4.10 o'r cyfansoddiad.

Yn y cyfarfod blynyddol, bydd y Cyngor hefyd yn penderfynu pa mor aml y dylai'r holl Gynghorwyr gyfarfod fel y Cyngor Llawn. Gelwir y cyfarfodydd rheolaidd hyn o'r Cyngor Llawn yn gyfarfodydd cyffredin.

Cynhelir cyfarfodydd cyffredin yn unol â rheolau trefniadaeth y cyngor sydd wedi'u nodi yn adran 4.11 o'r cyfansoddiad.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen i'r Cyngor Llawn gyfarfod cyn y cyfarfod a oedd wedi'i drefnu, a hynny er mwyn trafod mater brys neu o bwys arbennig. Gelwir hyn yn gyfarfod eithriadol o'r Cyngor.

Mae'r broses i alw cyfarfod anghyffredin a'r materion y gellir eu trafod ynddynt wedi'u nodi yn adran 4.12 o'r cyfansoddiad.

Y Cyngor Llawn sydd yn gyfrifol am benderfynu pryd a lle y bydd cyfarfodydd y Cyngor Llawn yn cael eu cynnal. Rhaid i' Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd hysbysu Cynghorwyr am hyn drwy roi gwŷs iddyn nhw.

Mae Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwybod am gyfarfodydd y Cyngor Llawn, a hynny drwy gyhoeddi hysbysiad cyn pob cyfarfod. Rhaid i'r hysbysiad gynnwys gwybodaeth benodol fel dyddiad ac amser y cyfarfod, ble caiff ei gynnal a sut y gallwch gael mynediad i'r cyfarfod o bell gyda meddalwedd fideo-gynadledda.

Gallwch ddarllen mwy am gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Cyngor yn rhan 4 o'r canllaw hwn.

Mae adrannau 4.13 a 4.14 o'r cyfansoddiad yn llywodraethu trefniadau cyfarfodydd a'r gofynion o ran hysbysiadau.

## Sut mae'r Cyngor Llawn yn gwneud penderfyniadau?

Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor Llawn yn unol â set o reolau a gytunwyd arnyn nhw ac sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod dadleuon yn cael eu cynnal yn deg ac effeithlon, a bod gan bob Cynghorydd y gallu i ofyn cwestiynau ac i wneud sylwadau ar ran y cyhoedd.

Mae rheolau'r ddadl wedi'u nodi yn adran 4.22 o'r cyfansoddiad.

Mae penderfyniadau'n cael eu gwneud gan Gynghorwyr trwy fwrw pleidleisiau o blaid neu yn erbyn penderfyniad penodol (a elwir yn gynigion yn y cyfansoddiad). Gall cynghorwyr hefyd gynnig gwelliannau (newidiadau) i gynnig penodol, a bydd angen pleidleisio ar y rhain wedyn.

Yn hanesyddol, byddai pleidleisiau yn cael eu cynnal trwy ddangos dwylo, gyda Chynghorwyr yn codi dwylo i ddangos pleidlais o blaid neu yn erbyn cynnig penodol, neu a oeddent am ymatal (h.y. ddim am bleidleisio o blaid nac yn erbyn y cynnig). Bellach, mae cynghorau yn defnyddio ystod o ddulliau gwahanol, gan gynnwys padiau pleidleisio electronig mewn cyfarfodydd lle mae Cynghorwyr yn bresennol, a phleidleisio electronig ar feddalwedd fideo-gynadledda pan fydd cyfarfod yn un o bell neu mewn fformat hybrid.

Fel arfer, bydd angen i fwyafrif syml o'r rhai sy'n bresennol bleidleisio dros gynnig penodol er mwyn i benderfyniad gael ei wneud. Hynny yw, mae'n rhaid i fwy o Gynghorwyr bleidleisio dros gynnig nag yn ei erbyn. Pan fydd pleidlais yn gyfartal ar ôl i bob Cynghorydd bleidleisio, bydd y Maer yn bwrw ail bleidlais er mwyn gwneud penderfyniad.

Gall y cynghorwyr ofyn am gofnodi’r bleidlais ar gyfer mater penodol. Pan fo pleidlais wedi'i chofnodi, bydd enwau’r Cynghorwyr sy'n pleidleisio o blaid, enwau’r rhai sy’n pleidleisio yn erbyn y cynnig ac enwau’r rhai sy'n ymatal yn cael eu hysgrifennu a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod. Gall cynghorwyr hefyd ofyn i'w pleidlais unigol nhw ar gynnig penodol gael ei chofnodi yn y cofnodion.

Mae trefniadau pleidleisio'r Cyngor wedi'u nodi yn adran 4.25 o'r cyfansoddiad.

## A oes angen i bob Cynghorydd fod yn bresennol cyn y gellir gwneud penderfyniad?

Nid oes angen i bob Cynghorydd bleidleisio ar bob penderfyniad. Mewn gwirionedd, mewn rhai amgylchiadau efallai na fydd yn briodol i Gynghorydd bleidleisio ar fater

penodol (er enghraifft, pan fo ganddyn nhw fuddiant personol mewn penderfyniad). Gallwch ddarllen mwy am hyn yn rhan tri o'r canllaw hwn.

Fodd bynnag, er mwyn i'r Cyngor wneud penderfyniad cyfreithlon mae angen isafswm o Gynghorwyr i fod yn bresennol mewn cyfarfod. Yn y cyfansoddiad, cyfeirir at yr isafswm o Gynghorwyr sydd angen bod yn bresennol mewn cyfarfod fel y cworwm ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

Mae adran 4.16 y cyfansoddiad yn nodi'r isafswm o Gynghorwyr sydd angen bod yn bresennol er mwyn i'r Cyngor Llawn gael gwneud penderfyniad.

**A yw cyfarfodydd yn cael eu cofnodi?**

Darlledir cyfarfodydd y Cyngor Llawn yn fyw ar wefan y Cyngor.

Cedwir cofnod o bob cyfarfod ar ffurf cofnodion. Bydd y cofnodion yn cynnwys cofnod o'r cynigion a gyflwynwyd i'r cyfarfod yn ogystal â'r penderfyniadau a wnaed. Mae'r cofnodion hefyd yn dangos pwy oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Bydd cofnodion cyfarfodydd o'r Cyngor llawn yn cael eu cymeradwyo yng nghyfarfod nesaf y Cyngor ac yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor yn unol â rheolau trefniadaeth mynediad at wybodaeth y Cyngor.

Mae'r Cyngor hefyd yn cyhoeddi cofnod o'r penderfyniadau a wneir ym mhob cyfarfod o'r Cyngor Llawn, y Cabinet, pwyllgorau ac is-bwyllgorau o fewn saith diwrnod i'r cyfarfod ddigwydd.

Os ydych chi eisiau gweld beth oedd penderfyniad y Cyngor ar fater sy'n effeithio arnoch chi, gallwch ddarllen y cofnodion neu'r cofnod o benderfyniadau ar gyfer y cyfarfod lle trafodwyd y mater hwnnw.

Ceir gwybodaeth am drefniadau darlledu'r Cyngor yn adran 4.32 o'r cyfansoddiad ac ar wefan y Cyngor.

Ceir gwybodaeth am gofnodion yn adran 4.26 y cyfansoddiad.

Mae'r rheolau trefniadaeth mynediad at wybodaeth i'w gweld yn adran 15 o'r cyfansoddiad.

Mae cofnodion cyfarfodydd a chofnodion penderfyniadau i'w cael ar wefan y Cyngor.

**Y Cabinet**

Mae'r Cabinet yn cynnwys yr Arweinydd a'r Cynghorwyr unigol a benodwyd i'r Cabinet gan yr Arweinydd.

Mae adrannau 5.2 a 5.5 o'r cyfansoddiad yn egluro adeiledd y Cabinet a sut mae Cynghorwyr yn cael eu penodi i'r Cabinet.

Gall rôl yr Arweinydd ac unrhyw rôl arall ar y Cabinet gael ei gyflawni gan ddau neu fwy o Gynghorwyr trwy rannu swyddi.

Mae adran 5.13 o'r cyfansoddiad yn egluro'r trefniadau ar gyfer rhannu swyddi aelodau'r Cabinet.

**<u>Beth mae'r Cabinet yn ei wneud?</u>**

Yr Arweinydd sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau gweithredol y Cyngor. Fodd bynnag, yn ymarferol ni all yr Arweinydd gyflawni pob un o'r swyddogaethau hyn ei hunain, felly maen nhw'n dirprwyo'r cyfrifoldeb am rai swyddogaethau i'r Cabinet, i aelodau'r Cabinet, i swyddogion y Cyngor neu i gyrff arall.

Bob blwyddyn bydd yr Arweinydd yn penderfynu pa swyddogaethau sydd i'w dirprwyo i bwy. Gelwir hyn yn gynllun dirprwyo'r Cyngor.

Mae adrannau 5.6 a 5.10.1 i 5.10.3 o'r cyfansoddiad yn egluro sut y caiff swyddogaethau'n eu dirprwyo gan yr Arweinydd.

Mae cynllun dirprwyo'r Cyngor i'w weld ar wefan y Cyngor.

**<u>Cyfarfodydd y Cabinet</u>**

Bydd yr Arweinydd yn penderfynu pryd y bydd y Cabinet yn cyfarfod ac am ba hyd y byddant yn cyfarfod. Nhw hefyd fydd yn cadeirio cyfarfodydd y Cabinet.

Mae'r cyfansoddiad yn rhagnodi rhai materion sydd angen cael eu hystyried ym mhob cyfarfod o'r Cabinet. Hefyd, efallai y bydd yr Arweinydd, aelodau'r Cabinet a rhai Prif Swyddogion yn mynnu bod eitem o fusnes yn cael ei ychwanegu at agenda'r cyfarfod.

Cynhelir cyfarfodydd y Cabinet a'i bwyllgorau (Cydraddoldeb, Rhianta Corfforaethol) yn unol â rheolau trefniadaeth a dadlau fel y nodir yn y cyfansoddiad.

Mae'r rheolau trefniadaeth a dadlau wedi'u nodi yn adran 5.8 i 5.10 o'r cyfansoddiad.

Mae adran 5.11 o'r cyfansoddiad yn llywodraethu sut cynhelir cyfarfodydd y Cabinet.

**Sut mae'r Cabinet yn gwneud penderfyniadau?**

Mae'n ofynnol i'r Cabinet ymgynghori â Chynghorwyr unigol a chyda phwyllgorau penodol cyn y caiff wneud rhai penderfyniadau penodol ar faterion sydd ddim yn rhai brys.

Mae'r gyfraith hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cabinet ymgynghori â'r cyhoedd cyn gwneud rhai penderfyniadau penodol. Hyd yn oed pan nad oes angen ymgynghoriad cyhoeddus ar ddeddfwriaeth gall y Cabinet, fel mater o arfer da, fynd ati i ymgynghori â'r cyhoedd cyn gwneud penderfyniadau eraill o bwys. Pan fo'r Cabinet yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, rhaid iddynt roi ystyriaeth i ymatebion yr ymgynghoriad wrth iddynt wneud eu penderfyniad.

Caiff y gofynion hyn o ran ymgynghori eu hegluro yn adran 15.14 o'r cyfansoddiad.

Rhaid i'r Cabinet gadw cofnod o bob penderfyniad mae'n ei wneud, gan gynnwys pob penderfyniad a wneir gan aelodau unigol o'r Cabinet a chan bwyllgorau'r Cabinet.

Mae adran 15.15 o'r cyfansoddiad yn nodi'r gofynion ar gyfer cofnod penderfyniadau y Cabinet.

Gallwch ddarllen cofnodion cyfarfodydd y Cabinet ar wefan y Cyngor.

**Pam fod gan y Cyngor bwyllgorau a beth maen nhw'n ei wneud?**

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i'r Cyngor sefydlu pwyllgorau er mwyn cyflawni rhai o swyddogaethau cyfreithiol y Cyngor.

Gall y Cyngor hefyd benderfynu sefydlu pwyllgorau a gweithgorau eraill er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i gynnal ei fusnes yn effeithlon ac effeithiol.

**Beth mae pwyllgorau craffu'r Cyngor yn ei wneud?**

*Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu*

Y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Cabinet a chyrff eraill y Cyngor yn atebol am eu gweithredoedd.

Gall y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu: -

- adolygu a chraffu ar y penderfyniadau a wneir gan y Cabinet a chan rannau eraill o'r Cyngor;
- gwneud adroddiadau ac argymhellion i'r Cyngor neu'r Cabinet; a
- gwneud cynigion ynghylch newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau'r Cyngor.

Mae swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wedi'u nodi yn adrannau 7.2, 7.4, 7.10 a 7.19 o'r cyfansoddiad. Mae rôl a chwmpas y Pwyllgorau wedi'u nodi yn 7.3 ac mae'n cynnwys ystyried materion addysg a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'n rhaid i aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gael gwybod am gyfarfodydd cyrff eraill y Cyngor. Mae ganddyn nhw hawliau arbennig i weld dogfennau'r Cyngor.

Gall y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hefyd ei gwneud yn ofynnol i unrhyw aelod o'r Cabinet neu unrhyw uwch-swyddog cyflogedig y Cyngor ymuno â chyfarfod o'r pwyllgor er mwyn egluro penderfyniad y maent wedi'i wneud neu er mwyn egluro eu perfformiad.

Disgrifir hawliau a phwerau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn adrannau 7.22 i 7.25 o'r cyfansoddiad.

Mae'r rheolau ynghylch aelodaeth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, sut cynhelir cyfarfodydd pwyllgor a sut y cyflawnir swyddogaethau’r pwyllgor wedi'u nodi yn adran 7 o'r cyfansoddiad.

*Y Pwyllgor Safonau*

Mae'r Pwyllgor Safonau yn gyfrifol am hyrwyddo safonau ymddygiad uchel ymhlith Cynghorwyr, gan gynnwys drwy gynghori a hyfforddi Cynghorwyr ar y cod ymddygiad cynghorwyr a chynghori'r Cyngor os bydd newidiadau i'r cod hwnnw.

Nodir swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau yn adrannau 8.6 i 8.8 o'r cyfansoddiad.

Mae’r Pwyllgor Safonau hefyd yn gyfrifol am ymchwilio i achosion honedig o dorri’r cod ymddygiad cynghorwyr ac am geryddu aelodau pan ganfyddir eu bod wedi methu â chydymffurfio â'r cod hwnnw.

Mae'r drefn ar gyfer ymdrin â honiadau a wneir yn erbyn Cynghorwyr wedi'i nodi yn y cyfansoddiad.

Mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys Cynghorwyr ac aelodau annibynnol (ni chant fod yn aelodau o’r Cyngor neu'n swyddogion cyflogedig y Cyngor, nac ychwaith yn gysylltiedig ag aelodau’r Cyngor neu swyddogion cyflogedig y Cyngor).

Penodir cynghorwyr i'r Pwyllgor yn unol â'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol (sy'n sicrhau bod cyfansoddiad gwleidyddol y pwyllgor yn adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor).

Gallwch ddarllen mwy am y Pwyllgor Safonau yn adran 8 y cyfansoddiad.

**Beth mae pwyllgorau rheoleiddio'r Cyngor a'r pwyllgorau eraill yn ei wneud?**

*Y Pwyllgor Datblygiad a Rheoli*

Y Cyngor sydd yn gyfrifol am weithredu'r system gynllunio yn ei ardal. Mae hyn yn cynnwys paratoi cynlluniau datblygu lleol a pholisïau cynllunio lleol (sy'n llywodraethu datblygiad yn ardal y Cyngor) yn ogystal â rheoli datblygiad (drwy roi neu wrthod caniatâd i ddatblygiadau newydd).

Bydd y Cyngor yn penodi Cynghorwyr unigol i'r Pwyllgor ac yn cytuno ar gylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor ac ar y ddirprwyaeth o bwerau i'r Pwyllgor i'w galluogi i gyflawni'r swyddogaethau hynny.

Gallwch ddarllen mwy am Bwyllgorau'r Cyngor yn adran 9.4 y cyfansoddiad.

Gallwch hefyd ddarllen mwy am swyddogaethau cynllunio'r Cyngor ar wefan y Cyngor.

*Y Pwyllgor Trwyddedu*

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am roi neu wrthod trwyddedau ar gyfer ystod eang o wahanol fusnesau, gwasanaethau a gweithgareddau yn ei ardal. Dirprwyir swyddogaethau trwyddedu'r Cyngor i Bwyllgor Trwyddedu'r Cyngor.

Bydd y Cyngor yn penodi Cynghorwyr unigol i'r Pwyllgor Trwyddedu ac yn cytuno ar gylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor ac ar y ddirprwyaeth o bwerau i'r Pwyllgor Trwyddedu er mwyn ei alluogi i gyflawni'r swyddogaethau hynny.

Gallwch ddarllen mwy am y Pwyllgor Trwyddedu ac am is-bwyllgorau'r Cyngor yn adran 9.4 ac Atodiad 1 o Adran 14 o'r cyfansoddiad.

Gallwch hefyd ddarllen mwy am swyddogaethau cynllunio'r Cyngor ar wefan y Cyngor

*Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu*

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynghori'r Cyngor Llawn a'r Cabinet, yn ogystal â'u pwyllgorau a'u haelodau, ar faterion sy'n ymwneud â llywodraethu da, goruchwyliaeth ariannol, rheoli risg a chwynion.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn monitro effeithiolrwydd y rheolau a'r gweithdrefnau sy'n sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu'n gyfreithlon, yn gyfrifol a'i fod yn atebol i'r cyhoedd (mae'r cyfansoddiad yn cyfeirio atynt fel systemau llywodraethu a rheolaethau mewnol y Cyngor). Mae'r pwyllgor hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod penderfyniadau a chyllid y Cyngor yn cael eu harchwilio yn unol â'r gweithdrefnau y

cytunwyd arnynt. Yn olaf, rhaid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu a rhoi sylwadau ar adroddiadau hunan-asesu corfforaethol y Cyngor ei hun.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys cymysgedd o Gynghorwyr ac aelodau lleyg (sydd ddim yn aelodau o'r Cyngor). Penodir cynghorwyr i'r Pwyllgor yn unol â'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol (sy'n sicrhau bod cyfansoddiad gwleidyddol y pwyllgor yn adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor).

Mae adran 9.2 o'r cyfansoddiad yn egluro trefniadau'r Cyngor ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae'r cyfansoddiad yn egluro swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

*Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd*

Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd sy'n gyfrifol am benodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, am adolygu'r ddarpariaeth o adnoddau i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, ac am gefnogi aelodau anweithredol o'r Cyngor.

Cynghorwyr sy'n ffurfio'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, er bod cyfyngiadau ar y nifer o aelodau Cabinet a gaiff eistedd ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Penodir cynghorwyr i'r Pwyllgor yn unol â'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol (sy'n sicrhau bod cyfansoddiad gwleidyddol y pwyllgor yn adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor).

Mae adran 9.3 o'r cyfansoddiad yn egluro trefniadau'r Cyngor ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Mae'r cyfansoddiad yn egluro swyddogaethau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

*Pwyllgorau Eraill*

Gallwch ddarllen mwy am bwyllgorau eraill y Cyngor gan gynnwys y Panel Apeliadau, y Pwyllgor Penodiadau a Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned yn Atodiad 1 i Adran 14 y cyfansoddiad.

**Beth yw cyd-bwyllgor?**

Gall y Cyngor gyflawni rhai o'i swyddogaethau ar y cyd ag un neu fwy o awdurdodau lleol eraill Cymru neu gyda chyrff cyhoeddus eraill. Er enghraifft, gallai’r Cyngor benderfynu gwneud hyn pan fyddent o'r farn y bydd cydlynu ei weithgareddau ag awdurdodau lleol, cyrff neu bobl eraill yn gwella eu gallu i hyrwyddo llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol y rhai sy'n byw yn ei ardal.

Gall y Cyngor sefydlu cydbwyllgorau gydag awdurdodau lleol, cyrff neu bobl eraill, gan ddirprwyo penderfyniadau a swyddogaethau i'r cydbwyllgorau hynny. Trwy ganiatáu i benderfyniadau gael eu gwneud gan gydbwyllgor, gall y Cyngor sicrhau y gellir cydlynu eu penderfyniadau gyda’r holl awdurdodau a chyrff eraill sydd â chynrychiolaeth ar y pwyllgor.

Gall y Cabinet hefyd sefydlu trefniadau ar y cyd ag un neu fwy o awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn arfer swyddogaethau gweithredol ar y cyd â'r awdurdodau hynny.

Mae adran 10.3 o'r cyfansoddiad yn llywodraethu’r amgylchiadau lle gall y Cyngor neu'r Cabinet ymrwymo i drefniadau ar y cyd ag awdurdodau a chyrff eraill.

Gall y Cyngor a'r Cabinet hefyd ddirprwyo neu gontractio swyddogaethau penodol i awdurdod lleol arall neu i gorff neu sefydliad arall.

Mae adrannau 10.5 i 10.6 o'r cyfansoddiad yn egluro’r trefniadau’r Cyngor o ran dirprwyo a chontractio.

**Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru**

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru wedi'i ffurfio gan arweinwyr y Cynghorau sy'n rhan ohono, a gallant ddewis cyfethol aelodau gweithredol eraill neu gynrychiolwyr partner fel sy'n briodol.

Rhaid i'r Cyngor gydweithio ag aelodau eraill o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig pan fyddant yn cyflawni'r swyddogaethau hyn.

Sefydlwyd y Cyd-bwyllgor Corfforedig o dan reoliadau a grëwyd gan Weinidogion Cymru. O ganlyniad, mae llawer o'r rheolau a'r safonau sy'n berthnasol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi'u pennu mewn rheoliadau yn hytrach na chan y cyfansoddiad.

Gallwch ddarllen mwy am drefniadau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn adran 10 o'r cyfansoddiad.

## Rhan 3 Rolau a chyfrifoldebau

### Pa swyddi mae Cynghorwyr yn eu cyflawni?

Yn y cyfansoddiad gallwch ganfod gwybodaeth am y rolau gwahanol y gall Cynghorwyr eu cyflawni ar y Cyngor.

Mae'r rhain yn cynnwys: -

- Arweinydd a Dirprwy Arweinydd;
- Maer a Dirprwy Faer;
- Aelod o’r Cabinet
- Cynorthwyydd Gweithrediaeth;
- Aelod Etholedig (Cynghorydd);
- Cadeirydd a / neu Aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd;
- Aelod o’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu;
- Cadeirydd a / neu Aelod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu;
- Aelod o'r Pwyllgor Safonau;
- Cadeirydd a / neu Aelod o bwyllgor rheoleiddio;
- Arweinydd yr Wrthblaid a Dirprwy Arweinydd yr Wrthblaid; a
- Aelod Eiriolwr.

Yn y cyfansoddiad byddwch hefyd yn dod o hyd i wybodaeth am rolau uwch-swyddogion cyflogedig y Cyngor, gan gynnwys y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

Mae'r rhan hon o'r canllaw yn rhoi mwy o wybodaeth am y rolau pwysig hyn.

**<u>Y Maer a’r Dirprwy Faer</u>**

Bob blwyddyn, mae’r Cyngor Llawn yn ethol Maer a Dirprwy Faer.

Mae’r gweithdrefnau sy'n rheoli etholiad y Maer a’r Dirprwy Faer yn ogystal â’u hymddiswyddiad neu ddiswyddiad wedi’u nodi yn adran 4.7.3 o'r cyfansoddiad.

Mae'r Maer yn gyfrifol am: -

- hyrwyddo a chynnal y cyfansoddiad;
- llywyddu cyfarfodydd y Cyngor Llawn;
- sicrhau bod cyfarfodydd y Cyngor Llawn â chworwm ac yn cael eu cynnal yn unol â rheolau gweithdrefnau'r Cyngor; a
- sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn unol â'r cyfansoddiad.

Y Maer yw arweinydd sifil y Cyngor hefyd. Maent yn gyfrifol am hyrwyddo buddiannau ac enw da'r Cyngor ac am gynnal gweithgareddau dinesig, cymunedol a seremonïol.

Mae'r Dirprwy Faer yn cyflawni swyddogaethau'r Maer yn eu habsenoldeb.

Gallwch ddarllen mwy am rôl a swyddogaethau'r Maer a'r Dirprwy Faer yn adran 4.7.4 y cyfansoddiad.

Mae disgrifiad o rôl y Maer i'w weld yn y cyfansoddiad.

Mae disgrifiad o rôl y Dirprwy Faer i'w weld yn y cyfansoddiad.

Mae manyleb y person ar gyfer y Maer i'w weld yn y cyfansoddiad.

**Arweinydd a Dirprwy Arweinydd**

Etholir yr Arweinydd gan y Cyngor Llawn.

Mae’r Arweinydd yn penodi Dirprwy Arweinydd er mwyn arfer swyddogaethau'r Arweinydd yn eu habsenoldeb.

Mae’r trefniadau sy'n llywodraethu etholiad Arweinydd a phenodiad Dirprwy Arweinydd wedi’u nodi yn adrannau 6.1 i 6.4 o'r cyfansoddiad.

Yr Arweinydd sydd yn gyfrifol am benodi cynghorwyr i'r Cabinet ac am ddyrannu meysydd polisi a chyfrifoldebau polisi penodol i aelodau'r Cabinet.

Mae'r Arweinydd hefyd yn gyfrifol am baratoi cynllun sy'n disgrifio pa swyddogaethau sydd i'w cyflawni gan ba aelodau o'r Cabinet (cyfeirir at hyn yn y cyfansoddiad fel cynllun dirprwyo'r Cabinet).

Gweler adran 6.5 o'r cyfansoddiad am ragor o wybodaeth.

Yr Arweinydd sydd yn cadeirio cyfarfodydd y Cabinet hefyd.

Bydd yr Arweinydd yn cynrychioli’r Cyngor ar Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru ac ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Gall yr Arweinydd benodi aelodau eraill o'r Cyngor i eistedd ar gyrff allanol eraill.

Gweler adrannau 6.5.6 i 6.5.8 o'r cyfansoddiad am ragor o wybodaeth.

Mae disgrifiad o rôl yr Arweinydd i'w weld yn y cyfansoddiad.

Mae disgrifiad o rôl y Dirprwy Arweinydd i'w weld yn y cyfansoddiad.

Mae manyleb y person ar gyfer yr Arweinydd i'w weld yn y cyfansoddiad.

**Aelod o'r Cabinet**

Mae Aelodau'r Cabinet yn gyfrifol am: -

- wneud penderfyniadau ar faterion o fewn eu maes cyfrifoldeb;
- chwarae rhan weithredol yng nghyfarfodydd a phenderfyniadau'r Cabinet;
- cyfrannu at ddatblygu blaen raglen waith y Cyngor yn ogystal â pholisïau a gweithdrefnau sydd o fewn eu maes cyfrifoldeb;
- darparu arweinyddiaeth wleidyddol i swyddogion cyflogedig y Cyngor ar y materion y maent yn gyfrifol amdanynt;
- adrodd i'r Cyngor Llawn, yr Arweinydd, y Cabinet ac eraill ar berfformiad gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt; a
- cymryd rhan ym mhrosesau a gweithdrefnau craffu'r Cyngor, gan gynnwys egluro'r penderfyniadau y maent wedi'u gwneud a pherfformiad swyddogaethau eu maes i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Gallwch ddarllen mwy am aelodau'r Cabinet yn adran 5.5 o'r cyfansoddiad.

Mae disgrifiad o rôl aelodau'r Cabinet i'w weld yn y cyfansoddiad.

Mae manyleb y person ar gyfer Aelodau'r Cabinet i'w weld yn y cyfansoddiad.

**Cynorthwyydd Gweithrediaeth**

Mae Cynorthwywyr Gweithrediaeth yn gwasanaethu'r Cynghorwyr ac yn cefnogi aelodau'r Cabinet drwy ymgymryd â thasgau a chyfrifoldebau penodol ar eu rhan. Maen nhw'n gallu mynychu cyfarfodydd, paratoi adroddiadau, adolygu papurau a sylwadau drafft ar gyfer yr aelod y maen nhw'n ei gefnogi.

Nid yw Cynorthwywyr Gweithrediaeth yn Aelodau o'r Cabinet ac ni allant bleidleisio yng Nghyfarfodydd y Cabinet nac yng Nghyfarfodydd Pwyllgor y Cabinet. Fodd bynnag, mae ganddynt hawl i fynychu cyfarfodydd o'r Cabinet a'i bwyllgorau ac i siarad ynddynt.

Gallwch ddarllen mwy am Gynorthwywyr Gweithrediaeth yn adran 5.7 y cyfansoddiad.

**Pa swyddi mae swyddogion cyflogedig y Cyngor yn eu perfformio?**

Mae aelodau etholedig y Cyngor yn cael eu cefnogi gan swyddogion cyflogedig y Cyngor, maent yn atebol i'r Cyngor ac yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau a gytunwyd gan y Cyngor Llawn, y Cabinet ynghyd â'u pwyllgorau a'u cyrff.

Y **Prif Weithredwr** sydd â chyfrifoldeb corfforaethol a gweithredol cyffredinol am waith y Cyngor ac am bob un o swyddogion cyflogedig y Cyngor.

Disgrifir rôl a chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr yn adrannau 12.1.2 a 12.2 o'r cyfansoddiad.

Mae'r **Swyddog Monitro** yn gyfrifol am sicrhau cyfreithlondeb a thegwch pan fo'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau, am gynnal y cyfansoddiad, am dderbyn adroddiadau o dorri dyletswyddau a rhwymedigaethau'r Cyngor, ac am gynnal ymchwiliadau i honiadau o'r fath.

Disgrifir rôl a chyfrifoldebau'r Swyddog Monitro yn adran 12.3 o'r cyfansoddiad.

**Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd** sy'n gyfrifol am roi cyngor i'r Cyngor, ei bwyllgorau ac i Gynghorwyr unigol ar gyflawni swyddogaethau a chyfrifoldebau democrataidd y Cyngor yn briodol.

Disgrifir rôl a chyfrifoldebau Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn adran 12.5 y cyfansoddiad.

Y **Prif Swyddog Cyllid** sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor yn gwneud penderfyniadau ariannol cyfreithlon a darbodus. Nhw hefyd sy'n gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor ac am roi cyngor i Gynghorwyr ar gyllideb a gweithdrefnau ariannol eraill y Cyngor.

Disgrifir rôl a chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid yn adrannau 12.4 a 17 o'r cyfansoddiad.

Mae'r Cyngor hefyd yn cyflogi nifer o Brif Swyddogion eraill, fel sydd wedi'u rhestru yn y cyfansoddiad.

Mae'r Prif Swyddogion i gyd yn atebol i'r Cyngor am reolaeth ariannol ac am weinyddiaeth o'r gwasanaethau a'r gweithgareddau hynny a ddyrannwyd iddynt yn unol â pholisïau'r Cyngor.

Disgrifir rolau a chyfrifoldebau'r Prif Swyddogion yn y cyfansoddiad.

Mae'r prosesau sy'n rheoli sut mae swyddogion yn cael eu recriwtio, eu penodi, eu disgyblu a'u diswyddo wedi'u nodi yn adran 12.9 o'r cyfansoddiad.

**Sut dylai Cynghorwyr a Swyddogion ymddwyn?**

**<u>Dylai Cynghorwyr gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad Aelodau</u>**

Mae disgwyl i gynghorwyr gynnal y safonau uchaf o ran ymddygiad personol a phroffesiynol. Disgrifir y safonau hynny yn y Cod Ymddygiad Aelodau.

Bwriad y Cod Ymddygiad Aelodau yw helpu ac arwain Cynghorwyr i gynnal safonau ymddygiad priodol wrth wasanaethu eu cymuned. Mae hynny, yn ei dro, yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ac yn helpu i feithrin ymddiriedaeth a pharch tuag at gynrychiolwyr lleol.

Mae'r Cod Ymddygiad Aelodau yn seiliedig ar y 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus, a nodwyd gyntaf yn yr Adroddiad Nolan ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus 1995. Ychwanegwyd tair egwyddor ar gyfer egwyddorion llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae'r Cod Ymddygiad Aelodau yn cyd-fynd â'r egwyddorion hyn ac yn gwneud darpariaethau ar gyfer eu cymhwyso'n ymarferol.

- **Anhunanoldeb**

  Rhaid i aelodau weithredu er budd y cyhoedd yn unig. Ni ddylent byth ddefnyddio eu statws fel aelodau i roi mantais amhriodol i'w hunain nac i roi mantais neu anfantais i eraill mewn modd amhriodol.

- **Gonestrwydd**

  Rhaid i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus yn ogystal â chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro mewn ffordd sy'n amddiffyn budd y cyhoedd.

- **Uniondeb a phriodoldeb**

  Rhaid i aelodau beidio â rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle gallai eu huniondeb gael ei gwestiynu oherwydd unrhyw rwymedigaeth ariannol neu fel arall i unigolyn neu sefydliad a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau. Rhaid i'r aelodau osgoi ymddygiad o'r fath trwy'r adeg.

- **Dyletswydd i gynnal y gyfraith**

  Rhaid i aelodau gynnal y gyfraith a gweithredu yn unol â'r ymddiriedaeth y mae'r cyhoedd wedi'i rhoi ynddynt trwy'r adeg.

- **Stiwardiaeth**

  Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau rhaid i aelodau sicrhau bod yr adnoddau sydd o dan eu hawdurdod yn cael eu defnyddio'n gyfreithlon ac yn ddarbodus.

- **Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau**

  Rhaid i aelodau wneud penderfyniadau yn ôl teilyngdod pan fyddent yn cyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys gwneud apwyntiadau, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion am wobrau a buddion. Er bod yn rhaid i'r aelodau roi sylw i gyngor proffesiynol swyddogion, ac er eu bod yn gallu ystyried barn pobl eraill, gan gynnwys eu grwpiau gwleidyddol, eu cyfrifoldeb nhw yw penderfynu ar eu barn ac, os yw'n briodol, sut i bleidleisio ar unrhyw fater.

- **Cydraddoldeb a pharch**

  Rhaid i aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gan roi ystyriaeth deilwng i'r angen i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhywedd, hil, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, oedran neu grefydd, a rhaid iddynt ddangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill.

- **Bod yn Agored**

  Rhaid i'r aelodau fod mor agored â phosibl am eu holl weithredoedd yn ogystal â gweithredoedd eu hawdurdod. Rhaid iddynt geisio sicrhau bod unrhyw gyfyngiad ar ddatgelu gwybodaeth yn digwydd yn unol â'r gyfraith.

- **Atebolrwydd**

  Mae aelodau'n atebol i'r etholwyr ac i'r cyhoedd yn gyffredinol o ran eu gweithredoedd a'r ffordd y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel aelod. Rhaid iddynt fod yn barod i gyflwyno eu hunain i'r fath graffu ag sy'n briodol i'w swydd.

- **Arweinyddiaeth**

  Rhaid i'r aelodau hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy arweiniad ac esiampl, a hynny er mwyn meithrin hyder y cyhoedd yn eu rôl ac yn yr awdurdod. Rhaid iddynt barchu didueddrwydd ac uniondeb swyddogion statudol a gweithwyr eraill yr awdurdod.

Gellir darllen y Cod Ymddygiad Aelodau yn ei gyfanrwydd yn y cyfansoddiad.

Disgwylir i gynghorwyr sicrhau eu bod yn deall eu rhwymedigaethau o dan y Cod ac iddynt weithredu mewn ffordd sy'n dangos eu hymrwymiad i gyrraedd y safonau ymddygiad uchel a ddisgwylir ganddynt. Mae Cynghorwyr yn derbyn hyfforddiant pan

gânt eu penodi gyntaf, yn ogystal â hyfforddiant rheolaidd wedyn, a hynny er mwyn eu cefnogi i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad Aelodau.

## Dylai Swyddogion gydymffurfio â’r Cod Ymddygiad Swyddogion

Mae Swyddogion cyflogedig y Cyngor yn gyfrifol am wasanaethu'r cyngor drwy ddarparu cyngor i Gynghorwyr, trwy weithredu polisïau'r Cyngor, a thrwy ddarparu gwasanaethau i'r gymuned leol. Wrth gyflawni eu dyletswyddau, rhaid iddynt weithredu ag uniondeb, gonestrwydd, didueddrwydd a gwrthrychedd.

Mae gan y cyhoedd hawl i ddisgwyl y safonau ymddygiad uchaf gan bawb sy'n gweithio i'r Cyngor. Mae'r Cod Ymddygiad Swyddogion yn amlinellu’r rheolau a’r amodau gwasanaeth sy'n berthnasol i weithwyr y Cyngor. Ei fwriad yw darparu canllawiau clir er mwyn cynorthwyo Swyddogion yn eu gwaith o ddydd i ddydd ac i ganiatáu i'r cyhoedd ddeall yr hyn y gallant ei ddisgwyl pan fyddant yn rhyngweithio â gweithiwr o'r Cyngor.

Gellir darllen y Cod Ymddygiad Swyddogion yn ei gyfanrwydd yn y cyfansoddiad.

## Sut dylai Cynghorwyr a Swyddogion weithio gyda’i gilydd?

Mae gan Gynghorwyr a Swyddogion rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd gwahanol, ond mae'n hanfodol eu bod yn cydweithio'n effeithiol er mwyn cyflawni swyddogaethau'r Cyngor ac er mwyn darparu gwasanaethau i’r rhai sy'n byw yn ardal y Cyngor.

Nod y Protocol ar Gysylltiadau Aelodau a Swyddogion yw egluro priod rolau a chyfrifoldebau Cynghorwyr a Swyddogion ac i roi arweiniad iddynt o ran cydweithio a’i gilydd.  Mae'n egluro beth ddylai’r Cynghorwyr a’r Swyddogion ei ddisgwyl gan ei gilydd a sut y dylent gydweithio er mwyn cyflawni eu hamcanion cyffredin.

Mae gan Gynghorwyr hawl i fynegi barn wleidyddol ac i gefnogi polisïau'r blaid neu'r grŵp y maen nhw'n perthyn iddi, ond mae disgwyl i Swyddogion gyflawni busnes y Cyngor mewn ffordd sy’n wleidyddol ddiduedd, ac mae llawer ohonynt â chyfyngiadau ar eu hawl i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol. Mae'r protocol felly'n egluro sut y gall swyddogion gefnogi trafodaethau polisi gan grwpiau gwleidyddol, a hynny gan barhau i fod yn niwtral o ran gwleidyddiaeth.

Gallwch ddarllen y Protocol ar Gysylltiadau Aelodau a Swyddogion yn ei gyfanrwydd yn y cyfansoddiad.

## Sut alla i gwyno am Gynghorydd?

Mae Adran 3.2.2. (g) o'r cyfansoddiad yn egluro sut y gallwch gyflwyno sylwadau neu gwynion am wasanaethau'r Cyngor.

Os hoffech gwyno am Gynghorydd, dylech gysylltu naill ai â Swyddog Monitro'r Cyngor neu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Mae proses gwynion y Cyngor yn rhoi rhagor o wybodaeth am sut i gwyno ac mae ar gael ar wefan y Cyngor.

Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt y Swyddog Monitro ar wefan y Cyngor.

Gallwch ddysgu mwy am sut i wneud cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru trwy fynd i'w gwefan: https://www.ombwdsmon.cymru/sut-i-gwyno/

## Sut alla i gwyno am wasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y Cyngor?

Os oes gennych gwyn am y Cyngor, ei weithwyr neu am y gwasanaethau y mae'n ei ddarparu, defnyddiwch broses gwynion y Cyngor sydd i'w gweld ar wefan y Cyngor.

## Rhan 4 Polisïau a gweithdrefnau

### Cynlluniau a strategaethau allweddol y Cyngor (y fframwaith polisi)

**<u>Ble alla i ddod o hyd i gynlluniau a strategaethau allweddol y Cyngor?</u>**

Y Cyngor Llawn sy’n gyfrifol am bennu’r cynlluniau a strategaethau allweddol sydd yn ffurfio fframwaith polisi'r Cyngor.

Rhestrir y cynlluniau a'r strategaethau sy'n ffurfio fframwaith polisi'r Cyngor yn adran 4.2 y cyfansoddiad.

Caiff cynlluniau a strategaethau unigol eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Yn ogystal â hyn, mae cynllun integredig sengl y Cyngor yn dod â chynlluniau a strategaethau'r Cyngor ar gyfer y meysydd canlynol ynghyd: cymunedau; plant a phobl ifanc; gofal cymdeithasol a lles iechyd; a diogelwch cymunedol.

Gallwch ddarllen mwy am y cynllun integredig sengl yn adran 4.3 y cyfansoddiad.

Caiff cynllun integredig sengl y Cyngor ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

**<u>Sut mae fframwaith polisi'r Cyngor yn cael ei benderfynu?</u>**

Y Cabinet sydd yn gyfrifol am ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol, am ystyried unrhyw adroddiadau neu argymhellion a wneir gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor, ac am gydweithio â Phrif Swyddogion y Cyngor er mwyn datblygu fframwaith polisi drafft.

Unwaith y bydd y Cabinet wedi datblygu fframwaith polisi drafft, bydd yn cael ei gyflwyno gerbron y Cyngor Llawn er mwyn cael ei ystyried. Gall y Cyngor Llawn benderfynu mabwysiadu'r fframwaith polisi, i wneud newidiadau iddo, ei gyfeirio'n ôl at y Cabinet i wneud gwaith pellach arno, neu i amnewid ei fframwaith polisi am y drafft a baratowyd gan y Cabinet.

Os bydd y Cyngor Llawn yn penderfynu mabwysiadu'r fframwaith polisi bydd yn dod i rym ar unwaith. Os yw'r Cyngor Llawn yn diwygio'r fframwaith polisi, bydd gan yr Arweinydd gyfle i wrthwynebu'r gwelliannau ac i ailgynnull y Cyngor Llawn er mwyn ailystyried y fframwaith polisi.

Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y Cabinet, eu pwyllgorau, y Cynghorwyr unigol a swyddogion cyflogedig y Cyngor wedi’u hymrwymo i weithredu yn unol â'r fframwaith polisi.

Mae proses y Cyngor Llawn at gyfer mabwysiadu fframwaith polisi yn cael ei ddisgrifio yn adran 16.2 o'r cyfansoddiad.

**Gosod cyllideb a rheoli ariannol**

**<u>Sut mae'r Cyngor yn pennu ei gyllideb?</u>**

Y Cyngor Llawn sy'n gyfrifol am gytuno ar gyllideb y Cyngor ac am gytuno ar newidiadau i gyllideb y Cyngor wedi iddo gael ei fabwysiadu'n ffurfiol.

Mae cyllideb y Cyngor wedi'i rannu'n ddwy ran: -

- Mae'r gyllideb refeniw yn darparu ar gyfer costau gweithredu dydd i ddydd ac ar gyfer gwariant fel cyflogau staff, rhent, a chostau parhaus darparu gwasanaethau.

- Mae'r gyllideb gyfalaf yn darparu ar gyfer costau un tro fel, er enghraifft, cynlluniau gwella ffyrdd mawr, neu brynu neu adeiladu maes parcio newydd.

Y Cabinet, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid, sy'n gyfrifol am ddatblygu cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb y Cyngor ac am ymgynghori arnynt.

Ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad hwn, mae'r Cabinet yn gyfrifol am baratoi cynnig cyllideb derfynol i'w chyflwyno gerbron y Cyngor Llawn i gael ei hystyried.

Gall y Cyngor Llawn fabwysiadu'r gyllideb heb wneud unrhyw newidiadau, maen nhw'n gallu diwygio'r gyllideb, neu maen nhw'n gallu gofyn i'r Cabinet ei hailystyried cyn iddyn nhw gael ei mabwysiadu.

Mae proses y Cyngor Llawn ar gyfer mabwysiadu fframwaith polisi yn cael ei ddisgrifio yn adran 16.3.1 a 17 o'r cyfansoddiad.

**Penderfyniadau y tu allan i'r fframwaith polisi a'r gyllideb**

**<u>A all penderfyniadau gael eu gwneud sydd ddim yn cydymffurfio â'r gyllideb neu â'r fframwaith polisi?</u>**

Efallai y bydd y Cyngor Llawn yn penderfynu gwneud newidiadau i'r fframwaith polisi.

Fe all cyrff ac unigolion eraill wneud penderfyniadau nad ydynt yn cydymffurfio â'r fframwaith polisi, ond dim ond mewn nifer cyfyngedig o amgylchiadau eithriadol, ac mae'r rhain wedi'u nodi yn y cyfansoddiad. Er enghraifft, pan fo angen gwneud penderfyniad brys i ddiogelu buddiannau'r Cyngor ac nid oes modd trefnu cyfarfod o'r Cyngor Llawn mewn da bryd.

Fodd bynnag, gall pwyllgor trosolwg a chraffu'r Cyngor benderfynu cyfeirio penderfyniadau o'r fath at y Cyngor Llawn er mwyn eu hystyried ymhellach (cyfeirir at hyn yn y cyfansoddiad fel galw’r penderfyniad i mewn).

Nodir trefniadau'r Cyngor ar gyfer penderfyniadau brys sydd ddim yn cydymffurfio â'r fframwaith polisi yn adran 16.5 o'r cyfansoddiad.

Mae adran 16.7 o'r cyfansoddiad yn disgrifio'r amgylchiadau cyfyngedig lle gall cyrff neu unigolion ar wahân i'r Cyngor Llawn wneud newidiadau i'r fframwaith polisi.

Disgrifir pwerau'r pwyllgor trosolwg a chraffu yn adran 16.8 o'r cyfansoddiad.

## A oes modd symud arian rhwng penaethiaid cyllideb ar ôl i'r gyllideb gael ei mabwysiadu?

Yn ystod y flwyddyn, mae'n bosib y bydd angen i'r Cabinet a'r Prif Swyddogion drosglwyddo cyllidebau o un maes gwasanaeth i'r llall er mwyn adlewyrchu newidiadau o ran anghenion neu flaenoriaethau gwasanaeth, a hynny i gyflawni fframwaith polisi'r Cyngor o fewn y terfynau ariannol a osodir gan y Cyngor.

Mae'r mecanwaith sy’n caniatáu i’r Cabinet a'r Prif Swyddogion symud arian rhwng penaethiaid cyllideb wedi'i nodi yn y cyfansoddiad.

## Pa bolisïau a gweithdrefnau eraill sy'n rheoli sut mae'r Cyngor yn rheoli ei gyllideb?

Mae'r Cyngor yn gaeth i nifer o wahanol reolau a gweithdrefnau ariannol sy'n rheoli sut mae gwariant y Cyngor yn cael ei gynllunio, ei ymrwymo, ei adolygu a'i archwilio.

Mae rheolau trefniadaeth ariannol manwl y Cyngor wedi eu nodi yn adran 17 o'r cyfansoddiad.

## A oes unrhyw gyfyngiadau ar sut mae'r Cyngor yn prynu nwyddau a gwasanaethau?

Gall y Cyngor ymrwymo i gontractau i brynu nwyddau a gwasanaethau yn yr un modd ag unrhyw berson neu sefydliad arall. Fodd bynnag, rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â rheolau trefniadaeth contract y cyfansoddiad pan fyddant yn gwneud hynny.

Pwrpas y rheolau trefniadaeth contract yw sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol perthnasol ac yn sicrhau'r nwyddau a'r gwasanaethau sydd yn cynnig y fantais fwyaf (y gwerth gorau am arian) yn economaidd i drethdalwyr.

Os ydych yn gwerthu nwyddau neu wasanaethau i'r Cyngor yn rheolaidd, efallai byddai'n fuddiol i chi ymgyfarwyddo â'r rheolau a'r gweithdrefnau hyn.

Mae rheolau trefniadaeth contract y Cyngor wedi'u nodi yn y cyfansoddiad.

**Sut mae'r Cyngor yn ymrwymo i gontractau a chytundebau?**

Mae'r rheolau a'r gweithdrefnau sy'n rheoli sut mae cytundebau, contractau a gweithredoedd yn cael eu hawdurdodi a'u gweithredu ar ran y Cyngor wedi’u nodi yn adran 13 o'r cyfansoddiad.

## Rhan 5 Sut alla i gymryd rhan?

### Sut mae'r Cyngor yn ymgysylltu â phobl leol er mwyn eu hannog i gymryd rhan mewn democratiaeth leol?

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi strategaeth cyfranogiad y cyhoedd sy'n egluro sut y byddant yn annog pobl leol i gymryd rhan ym mhrosesau penderfynu'r Cyngor. Mae strategaeth cyfranogiad y cyhoedd y Cyngor yn disgrifio sut y bydd y Cyngor yn:

- gwella ymwybyddiaeth o swyddogaethau'r Cyngor;
- gwella ymwybyddiaeth o sut y gall pobl ddod yn Gynghorydd a beth mae'r rôl yn ei olygu;
- hwyluso mynediad at wybodaeth am y penderfyniadau sydd wedi'u gwneud neu sydd i'w gwneud gan y Cyngor;
- hyrwyddo trefniadau sy'n galluogi pobl i gyflwyno sylwadau i'r Cyngor am y penderfyniadau y maent wedi'u gwneud neu rai y byddent yn eu gwneud yn y dyfodol;
- sicrhau bod barn y cyhoedd yn cyrraedd y Pwyllgor[au] Trosolwg a Chraffu; a
- gwella ymwybyddiaeth Cynghorwyr o fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol.

Mae'r Cyngor hefyd yn ymgysylltu â phobl leol drwy eu paneli dinasyddion a thrwy arolygon ac ymgynghoriadau ynghylch polisïau a gwasanaethau penodol. Gall y rhain gael eu cychwyn gan y Cyngor, gan adrannau gwasanaeth o fewn y Cyngor neu drwy waith pwyllgorau neu is-bwyllgorau'r Cyngor.

### A gaf i anfon deiseb at y Cyngor?

Cewch, gallwch gyflwyno deisebau i'r Cyngor gan ddefnyddio cynllun deisebau'r Cyngor. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor i weithredu cynllun deisebau, sy'n nodi: -

- sut mae cyflwyno deiseb i'r Cyngor;
- sut a phryd y bydd y Cyngor yn cydnabod eu bod wedi derbyn deiseb;
- y camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd wrth ymateb i ddeiseb; a
- sut, ac erbyn pryd, y bydd y Cyngor yn darparu ymateb i'r sawl a gyflwynodd y ddeiseb ac i'r cyhoedd.

Gallwch ddarllen mwy am gyflwyno deiseb i'r Cyngor yn adran 3.2.2. (c) o'r cyfansoddiad.

Mae manylion cynllun deisebau'r Cyngor wedi'u cyhoeddi ar eu gwefan.

**Sut mae gweld pryd mae'r Cyngor a'i bwyllgorau a'i gyrff y cyfarfod?**

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi hysbysiadau ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor Llawn a'i bwyllgorau.

Gallwch ddarganfod mwy am ofynion hysbysu y Cyngor yn adrannau 3.1.1, 4.14 a 15.4 o'r cyfansoddiad.

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi hysbysiadau ar gyfer cyfarfodydd yn ogystal â rhaglen o gyfarfodydd sydd i ddod ar eu gwefan.

**Sut mae gweld beth fydd yn cael ei drafod mewn cyfarfod penodol?**

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi agendâu ar gyfer cyfarfodydd, ynghyd ag unrhyw bapurau ac adroddiadau cefndir, cyn i'r cyfarfod ddigwydd.

Bydd copïau caled o agendâu ac o bapurau ac adroddiadau cefndir hefyd ar gael yn y cyfarfod ar gyfer aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno bod yn bresennol.

Gallwch ddysgu mwy am y wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd cyn cyfarfodydd y Cyngor yn adrannau 15.5 a 15.8 o'r cyfansoddiad.

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi agendâu cyfarfodydd a dogfennau ac adroddiadau ategol ar eu gwefan.

**Sut mae gweld pryd y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar fater y mae gen i ddiddordeb ynddo?**

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi blaen raglen waith sy'n nodi pa benderfyniadau fydd yn cael eu gwneud gan y Cyngor Llawn a'r Cabinet, pa faterion fydd yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, a phryd y bydd y materion hyn yn cael eu trafod.

Gallwch ddysgu mwy am flaen raglen gwaith y Cyngor yn adrannau 3.1.1 a 15.13 o'r cyfansoddiad.

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi eu blaen raglen waith ar eu gwefan.

**A gaf i ofyn i bwyllgor neu gorff o'r Cyngor ymchwilio i fater penodol?**

Gallwch ofyn i gadeirydd corff penodol ychwanegu eitem at agenda cyfarfod sydd i ddod, neu gallwch fynd i gyfarfod a gofyn i'r corff hwnnw roi sylw i fater pan fyddant yn ystyried eitemau o fusnes ar gyfer y dyfodol. Gweler adran 3.2.2 o'r cyfansoddiad.

**A gaf i wylio cyfarfodydd y Cyngor Llawn?**

Cewch, gall aelodau'r cyhoedd ddod i wylio cyfarfodydd y Cyngor Llawn os ydynt yn cael eu cynnal yn gyhoeddus.

Mae cyfarfodydd y Cyngor Llawn hefyd yn cael eu darlledu'n fyw ar wefan y Cyngor, felly gallwch eu gwylio o bell os ydych yn dymuno gwneud hynny.

Yr unig adegau pan waherddir y cyhoedd o gyfarfodydd yw'r rhai pan fo'n debygol y byddai gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu i'r cyhoedd pe byddent yn bresennol. Gall y Cyngor hefyd wahardd y cyhoedd o gyfarfod, neu o ran o gyfarfod, os byddai eu caniatáu yn golygu datgelu gwybodaeth esempt. Mae gwybodaeth esempt yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn penodol neu eu materion ariannol neu eu materion busnes, gwybodaeth sydd angen braint gyfreithiol, gwybodaeth sy'n ymwneud ag atal, ymchwilio neu erlyn trosedd, neu unrhyw wybodaeth arall a bennir yn y cyfansoddiad.

Os byddwch yn tarfu ar gyfarfod o'r Cyngor, mae'n debygol y cewch eich rhybuddio gan y Maer am achosi aflonyddwch. Os byddwch yn parhau i darfu ar y cyfarfod, yna efallai y byddwch yn cael eich gyrru oddi yno.

Mae'r rheolau ynghylch gwahardd y cyhoedd o gyfarfodydd wedi eu nodi yn adrannau 15.10 o'r cyfansoddiad.

Nodir rhwymedigaethau'r Cyngor i ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor yn adran 4.32 o'r cyfansoddiad.

Mae'r rheolau ynghylch aelodau'r cyhoedd yn tarfu wedi'u nodi yn adran 4.30 o'r cyfansoddiad.

**A gaf i wylio cyfarfodydd eraill?**

Cewch, gall aelodau'r cyhoedd ddod i wylio unrhyw gyfarfod y mae'r Cyngor wedi penderfynu eu cynnal yn gyhoeddus.

Disgrifir eich hawl i fynychu cyfarfodydd Cabinet y Cyngor, pwyllgorau'r cyngor a chyrff eraill yn adran 15.3 y cyfansoddiad.

**A gaf i siarad mewn cyfarfod?**

Gall aelodau o'r cyhoedd siarad mewn unrhyw gyfarfodydd lle mae’r Cyngor wedi dewis caniatáu i aelodau'r cyhoedd gymryd rhan (e.e Pwyllgor Datblygiad a Rheoli). Gweler adran 3.2.2(d) o'r cyfansoddiad.

**A gaf i ofyn cwestiwn mewn cyfarfod?**

Gallwch ofyn cwestiynau ffurfiol i aelodau'r Cabinet yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn.

Fodd bynnag, er mwyn gofyn cwestiwn mae angen i chi roi hysbysiad ysgrifenedig (gan gynnwys mewn e-bost) i’r swyddog dynodedig (a elwir hefyd yn "swyddog priodol"), sef y Swyddog Monitro yn aml, cyn i'r cyfarfod ddigwydd er mwyn eu rhybuddio eich bod am ofyn cwestiwn.

Efallai mai dim ond un cwestiwn cewch ei ofyn, ac os na allwch chi ddod i'r cyfarfod yna gallwch enwebu rhywun i fynychu'r cyfarfod ar eich rhan a gofyn y cwestiwn.

Dim ond ychydig o amser sydd wedi’i bennu ar gyfer cwestiynau, ac mae cwestiynau yn cael eu trin yn y drefn yr hysbyswyd y swyddog priodol amdanynt, sef y Swyddog Monitro gan amlaf. Os bydd amser ar gyfer cwestiynau yn dod i ben cyn i chi allu gofyn eich cwestiwn, yna byddwch yn cael ateb ysgrifenedig i'ch cwestiwn.

Gallwch ddarllen mwy am ofyn cwestiwn yn adran 4.18 y cyfansoddiad.

**Sut mae gweld beth oedd penderfyniad y Cyngor?**

Mae’r Cyngor yn cyhoeddi agendâu, adroddiadau a chofnodion y cyfarfodydd unwaith y byddan nhw wedi cytuno arnynt. Mae'r papurau hyn ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio am o leiaf chwe blynedd o ddyddiad y cyfarfod. Mae'r papurau cefndir ar gael i'r cyhoedd am o leiaf bedair blynedd. Efallai y byddwch chi yn gallu ail-wylio recordiadau gwe-ddarllediad o lawer o gyfarfodydd hefyd.

Hefyd, mae gan y Cyngor drefniadau ar waith ar gyfer cyhoeddi cofnodion ysgrifenedig o benderfyniadau a wnaed gan y Cabinet, gan bwyllgorau'r Cyngor a chan gyrff eraill.

Gallwch ddarllen am drefniadau'r Cyngor ar gyfer cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd yn adran 15.7 o’r cyfansoddiad.

Gallwch ddarllen am drefniadau'r Cyngor ar gyfer cyhoeddi cofnodion ysgrifenedig o benderfyniadau a wnaed gan y Cabinet, gan bwyllgorau'r Cyngor a chan aelodau unigol o'r Cabinet yn adran 15.15 y cyfansoddiad.

Gallwch ddarllen cofnodion cyfarfodydd, adroddiadau ac agendâu ar wefan y Cyngor.

**A gaf i weld cyfrifon y Cyngor er mwyn deall sut mae fy nhreth cyngor yn cael ei wario?**

Cewch. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei gyfrifon ac i sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio. Gallwch ofyn cwestiynau neu fynegi pryderon am gyfrifon y Cyngor trwy gysylltu â’r Cyngor neu ag archwilydd allanol y Cyngor.

Gallwch ddysgu mwy am sut i weld a rhoi sylwadau ar gyfrifon y Cyngor yn adrannau 3.1.1 o'r cyfansoddiad.